Hawdd ei ddeall

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Rhoi mowld y glust i mewn

## Mae'r daflen hon ynglŷn â rhoi eich cymorth clust ymlaen a'i lanhau

### Sut i roi mowld y glust i mewn




**Mowld y glust** yw'r rhan sy'n mynd i mewn i'ch clust.



Codwch un o'r cymhorthion clywed i fyny. Yr un chwith neu'r un dde.



1. Gafaelwch ym **mowld y glust** gyda'ch bys a'ch bawd.



2. Rhowch y pen sydd â thwll i mewn i'ch clust.




3. Rhowch y tamaid ar y top i mewn.





4. Gwthiwch **fowld y glust** yn gadarn gyda'ch bys. Efallai y bydd arnoch chi angen tynnu eich **clusten** i lawr hefyd. Eich **clusten** yw'r rhan ar waelod eich clust, ble y bydd clustdlws ambell dro.





5. Llithrwch y cymorth clywed dros dop eich clust.

## Glanhau eich cymorth clywed



Sychwch **fowld y glust** gyda hances bapur bob nos.



Defnyddiwch y ddolen ar y teclyn glanhau i dynnu unrhyw gŵyr neu groen o'r twll.



Defnyddiwch y brws ar y teclyn glanhau i dynnu unrhyw gŵyr neu groen o'r cymorth clywed.



Bydd arnoch chi angen newid y tiwb ar y cymorth clywed bob rhyw bedwar mis.



- Gallwch chi ddod i glinig yr **Adran Glywedeg** i gael help i newid y tiwb.



- Neu gallwn ni drefnu i wirfoddolwr ymweld â chi gartref. Mae gwirfoddolwr yn rhywun sy'n helpu am ddim.